# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 53(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Arweinydd y Tŷ yn ateb cwestiynau ar ran Prif Weinidog Cymru.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Arweinydd y Tŷ ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Gwerthusiad Annibynnol o Fodel Ymateb Clinigol y Gwasanaethau Ambiwlans Brys

(45 munud)

**Dogfen Ategol:**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – Adroddiad terfynol ar werthuso cynllun peilot y model clinigol *(Saesneg yn unig)*

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Adolygiad Addysg ac Argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

(45 munud)

**Dogfen Ategol:**

Adroddiad ac Argymhellion yr OECD (Saesneg yn unig)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Dyfodol Gwasanaethau Bysiau Lleol

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid Arloesol: Model Buddsoddi Cydfuddiannol

(30 munud)

## 7 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(60 munud)

**NDM6241 Rebecca Evans (Gŵyr):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Gosodwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 7 Tachwedd 2016.

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 10 Chwefror 2017.

**Dogfennau Ategol**
Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 8 Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(5 munud)

**NDM6242** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 1 Mawrth 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Chwefror 2017 i'w hateb ar 28 Chwefror 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Prif Weinidog

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau diweddar gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â pholisïau amaeth a chefn gwlad yn dilyn y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0468(FM)**W**

**2. Lee Waters (Llanelli):** Beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo'r gyfres Library of Wales mewn ysgolion? OAQ(5)0474(FM)

**3. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau sy'n cychwyn? OAQ(5)0479(FM)

**4. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar Dorfaen? OAQ(5)0464(FM)
**TYNNWYD YN ÔL**

**5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau cysylltiadau rhyngwladol Cymru? OAQ(5)0469(FM)

**6. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu trigolion cartrefi mewn parciau sy'n wynebu talu ffi comisiwn o 10 y cant ar werthu eu cartref? OAQ(5)0471(FM)

**7. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau teithio rhatach? OAQ(5)0463(FM)

**8. David Rees (Aberafan):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl o gymunedau difreintiedig i gael cyflogaeth a chodi allan o dlodi? OAQ(5)0466(FM)

**9.** **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am orchmynion amddiffyn anffurfio organau cenhedlu benywod yng Nghymru? OAQ(5)0470(FM)

**10.** **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu nifer y meddygon teulu yng Nghymru? OAQ(5)0477(FM)

**11.** **Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddarparu cymorth ychwanegol i fusnesau'r stryd fawr yn Islwyn? OAQ(5)0476(FM)

**12.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gydraddoldeb mewn darpariaeth gwasanaethau llywodraeth leol? OAQ(5)0478(FM)

**13.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru parthed gofal canolraddol ar gyfer pobl hŷn yn ardal Casnewydd? OAQ(5)0475(FM)

**14.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau'r marwolaethau sy'n ymwneud ag yfed yng Nghymru? OAQ(5)0473(FM)

**15.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0472(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 7 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Diweddariad y Cynllun Cyflawni Strôc (45 munud)
- Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2016-17 (30 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2015-16 (60 munud)
- Dadl: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (60 munud)

**Dydd Mercher 8 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 23 mewn perthynas â Deisebau'r Cyhoedd (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

**NNDM6210**
**Lee Waters (Llanelli)**
**Jeremy Miles (Castell-nedd)**
**Vikki Howells (Cwm Cynon)**
**Hefin David (Caerffili)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod tua 40 y cant o'r gweithlu sy'n cael eu cyflogi yn yr 'Economi Sylfaenol' yn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau hanfodol fel: seilwaith; cyfleustodau; prosesu bwyd, manwerthu a dosbarthu; ac iechyd, addysg a gofal.

2. Yn cydnabod bod y sectorau hyn yn aml yn fwy abl i wrthsefyll ergydion economaidd allanol a bod ganddynt gryn botensial i sicrhau mwy o werth lleol o ddarparu nwyddau a gwasanaethau lleol.

3. Yn gresynu fod llawer o'r sectorau o fewn yr Economi Sylfaenol yn nodedig am swyddi â thâl isel ac ansicrwydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth i wneud yn fawr o effaith yr 'Economi Sylfaenol' ledled Cymru fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu strategaeth economaidd newydd, gan gynnwys mesurau i wella amodau cyflogaeth yn y sectorau hynny.

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Neil McEvoy (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mercher 14 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Bil Diddymu'r Hawl i Brynu (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg – y ffordd ymlaen (45 munud)
- Dadl: Y Rhaglen Cartrefi Cynnes (60 munud)

**Dydd Mercher 15 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ynghylch Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)

**Dydd Mawrth 21 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Dyfodol Cyflenwi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (45 munud)
- Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 (15 munud)
- Dadl ynghylch Egwyddorion Cyffredinol y Bil Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer - Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni) (30 munud)